| Datganiad Cyfrifon Drafft 2021/2022 - Hysbysiad Statudol | 2021/2022 Draft Statement of Accounts – Statutory Notice |
|---|---|
| Mae Datganiad Cyfrifon Drafft 2021/2022 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael ei baratoi yn unol â Chodau Ymarfer Cyfrifyddu Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) perthnasol, Safonau Cyfrifyddu a Darpariaethau Statudol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyfrifon hyn wedi'u cwblhau a'u hardystio gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol erbyn 31 Mai 2022, ac felly mae angen yr hysbysiad a ganlyn yn unol ag adran 10(4) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014: -<br><br>• Oherwydd effaith barhaus y pandemig COVID-19 ar adnoddau staff awdurdodau lleol, nid yw Datganiad Cyfrifon Drafft 2021/2022 wedi'i gwblhau eto. Felly, nid yw'r Swyddog Cyllid Cyfrifol wedi llofnodi nac ardystio'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.<br><br>• Mae'r Awdurdod yn bwriadu cwblhau'r gwaith o baratoi'r Datganiad Cyfrifon Drafft erbyn 30 Mehefin 2022 fan bellaf. Wedyn, bydd y Swyddog Cyllid Cyfrifol yn ystyried y gofyniad i lofnodi ac ardystio'r Cyfrifon yn unol â'r rheoliadau perthnasol.<br><br>• Ar ôl eu cwblhau, bydd y Cyfrifon Drafft yn destun archwiliad cyhoeddus ac archwiliad allanol fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Mae'r Awdurdod yn bwriadu cyhoeddi ei Gyfrifon terfynol wedi'u harchwilio erbyn 30 Tachwedd 2022 yn unol â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru. | The 2021/2022 Draft Statement of Accounts for Caerphilly County Borough Council are being prepared in accordance with the relevant CIPFA Accounting Codes of Practice, Accounting Standards and Statutory provisions. However, these Accounts have not been completed and certified by the Responsible Finance Officer by 31 May 2022 and therefore the following notice is required in compliance with section 10(4) of the Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014: -<br><br>• Due to the ongoing impact of the Covid-19 pandemic on local authority staff resources the 2021/2022 Draft Statement of Accounts has not yet been completed. Consequently, the Responsible Finance Officer has not signed and certified the accounts for the year ended 31 March 2022.<br><br>• The Authority intends to complete preparation of the Draft Statement of Accounts by 30 June 2022. At this point the Responsible Finance Officer will consider the requirement to sign and certify the Accounts in compliance with the relevant regulations.<br><br>• Further to completion, the Draft Accounts will be subject to public inspection and external audit as required by the Accounts & Audit (Wales) Regulations and the Public Audit Wales Act. The Authority intends to publish its final audited Accounts by 30 November 2022 in accordance with current Welsh Government guidance. |